

- Os na fydd eich cyflenwad yn cael ei adfer, ond bod cyflenwad eich cymydog wedi'i adfer, gwiriwch eich switsh tripio, os oes gennych un. Mae hwn ar y blwch ffiwsys neu wrth ei ymyl.

## Angen mwy o gymorth?

Os yw trydan yn hanfodol ar gyfer eich iechyd (er enghraifft, os ydych yn defnyddio offer meddygol yn eich cartref) gofynnwch i gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol. Gallwch wneud hyn ar ein gwefan, dros y ffôn neu drwy e-bost:

 [www.spenergynetworks.co.uk/priorityservices](http://www.spenergynetworks.co.uk/priorityservices)

 0330 10 10 444

 [customercare@spenergynetworks.com](mailto:customercare@spenergynetworks.com)

## Generaduron

Mae rhai cwsmeriaid yn paratoi ar gyfer y posibilrwydd y bydd toriadau yn y cyflenwad drwy osod generadur trydan wrth gefn er mwyn sicrhau cyflenwad i oleuadau ac offer neu ddyfeisiadau cynnal bywyd, nes y byddwn yn gallu adfer y gwasanaeth.

Os oes gennych eneradur, sicrhewch ei fod wedi'i osod yn ddiogel. Cyn cysylltu generadur, mae'n rhaid diffodd y cyflenwad sy'n dod i mewn a'i nysu oddi wrth eich cylchedau trydan eich hun a'r generadur. Os na wneir hyn, mae yna risg y byddwch yn difrodi eich eiddo ac yn peryglu

bywydau ein gweithwyr all fod yn gweithio ar linellau trydan yn yr ardal.

Efallai na fydd ansawdd y cyflenwad o eneradur cystal â'r cyflenwad arferol, felly cofiwch hyn os byddwch yn dibynnu ar y cyflenwad. Mae'n rhaid i chi ein hysbysu os ydych yn gosod generadur.

## Cysylltu â ni

Os bydd angen i chi gysylltu â ni ynglŷn ag ymholiad cyffredinol neu fod angen gwybodaeth arnoch ynglŷn â'n Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol, gallwch wneud hynny drwy:

 [www.spenergynetworks.co.uk](http://www.spenergynetworks.co.uk)

 0330 10 10 444

 [customercare@spenergynetworks.com](mailto:customercare@spenergynetworks.com)

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Cymraeg. Os byddwch angen copi, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.



Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys fel rhan o unrhyw funudau cynwysedig yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i alwadau o unrhyw fath o linell yn cynnwys symudol, BT, unrhyw linell sefydlog arall neu ffôn talu.

# Toriadau wedi'u Cynllunio

Bod yn barod



---

## Toriadau wedi'u Cynllunio

**Ar brydiau mae'n rhaid i ni dorri eich cyflenwad er mwyn gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol ac i'n galluogi i weithio'n ddiogel ar ein hoffer, er ein bod yn ceisio peidio â thorri eich cyflenwad pan fo hynny'n bosibl.**

Os bydd angen i ni dorri eich cyflenwad rydym yn amcanu at roi o leiaf 5 diwrnod o rybudd i'ch helpu i baratoi ar gyfer y toriad. Byddwn yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu ynglŷn â pha ddiwrnod a faint o'r gloch yr ydym yn disgwyl y byddwn yn diffodd y trydan. Mae'n annhebygol y byddwn angen mynediad i'ch adeilad. Fodd bynnag, petai angen i ni gael mynediad byddwn yn eich hysbysu ymlaen llaw. Er mwyn sicrhau diogelwch dylech gofio y gall y trydan gael ei adfer dros dro yn ystod y toriad er mwyn cynnal profion.

Os bydd angen mwy o wybodaeth a chyngor arnoch ynglŷn â thoriad penodol sydd wedi'i gynllunio, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r rhif ffôn sydd ar y llythyr yr ydym yn ei anfon atoch.

Os yw trydan yn hanfodol ar gyfer eich iechyd a'ch bod yn dibynnu ar drydan ar gyfer offer meddygol arbennig, gofynnwch i gael eich cynnwys ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaethol - ceir manylion ar gefn y daflen hon.

---

## Gwnewch baratoadau cyn i'r trydan gael ei ddiffodd

- Nodwch ar ba ddiwrnod a faint o'r gloch fydd y toriad er mwyn eich atgoffa eich hun - rhowch eich llythyr hysbysu ar eich oergell neu rhowch nodyn yn eich dyddiadur.
- Os ydych yn dibynnu ar offer meddygol, sicrhewch fod ganddo fatri wrth gefn pan fo'n bosibl (e.e. dialysis arenol neu grynodyddion ocsigen).
- Oergelloedd a rhewgelloedd - cadwch y drws wedi'i gau gymaint â phosibl, gan dynnu unrhyw beth sydd ei angen arnoch allan o'r oergell neu'r rhewgell cyn i'r trydan ddiffodd.
- Offer trydanol - diffoddwch neu datgysylltwch blygiau unrhyw offer trydanol, yn arbennig eitemau megis poptai, haearnau smwddio, sythwyr gwallt ac offer sensitif megis teledyddion. Peidiwch â thanio peiriant golchi dillad neu lestri cyn eich bod yn disgwyl toriad yn y cyflenwad.
- Ffonau - ni fydd nifer o ffonau (diwifr/digidol) yn gweithio pan fo toriad yn y cyflenwad. Gwiriwch a oes ganddynt fatri wrth gefn neu sicrhewch fod gennych ffôn symudol wedi'i wefru wrth law.
- Cofiwch wefru gliniaduron ac offer electronig arall a chadw unrhyw waith nad yw wedi ei gadw ar eich bwrdd gwaith.
- Goleuadau - bydd gadael switsh golau ymlaen yn eich hysbysu pan fo'r trydan yn cael ei adfer.
- Larymau lladrad - fel rheol ceir batri wrth gefn yn y larymau hyn, felly dylent weithio tra bod toriad yn y cyflenwad.

- Busnesau - os yw ffonau yn hanfodol, cofiwch wirio a fyddant yn gweithio neu beidio. Ni fydd rhewgelloedd masnachol ac agored yn aros yn oer, trefnwch eich bod yn cael cyflenwad trydan arall.

---

## Gwnewch eich hun yn gyfforddus

- Paratowch ddiodydd poeth mewn fflasgiau.
- Os bydd angen, gofawch bod gennych dortsh law wrth law gyda bartis wedi'u gwefru neu ganhwyllau ar gyfer golau – ond peidiwch â gadael canhwyllau o'ch golwg.
- Sicrhewch eich bod yn aros yn ddiogel ac yn gyfforddus. Yn ystod tywydd oer gwisgwch ddillad cynnes a sawl haen o ddillad.
- Os oes gennych gymdogion oedrannus, ceisiwch sicrhau eu bod yn ddiogel, cyfforddus a bod ganddynt fwyd a diod boeth pan fo'n bosibl.
- Cofiwch y bydd goleuadau strydoedd a grisiau cymunedol efallai wedi'u diffodd hefyd, felly cymerwch ofal os bydd angen i chi fynd allan.

---

## Pan fo'r cyflenwad yn cael ei adfer

- Disgwyliwch am 5-10 munud cyn rhoi eich offer yn ôl ymlaen.
- Rhowch eich offer ymlaen fesul un.
- Ailosodwch amseryddion ar offer trydanol sydd â chlociau.
- Bydd angen ailosod switsh amser ar gyfer cyflenwadau allfrig.
- Bydd gan fesuryddion talu ymlaen llaw yr un credyd ag oedd ganddynt cyn y toriad yn y cyflenwad.